



CYNLLUN MARCIO TAG UG

HAF 2016

**CYFRIFIADUREG – UG NEWYDD UNED 1
2500N10-1**

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio.

RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd fersiwn Saesneg gwreiddiol y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopio yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwysu yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

TAG UG CYFRIFIADUREG
CYNLLUN MARCIO HAF 2016

Uned 1

Cw	Ateb	Marciau	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm																				
1a	<ul style="list-style-type: none"> • Mae MOD yn gwirio a yw'r rhif yn rhanadwy â 2 / yn cyfrifo gweddill y rhif sy'n cael ei fewnbynnu. • Os bydd canlyniad modwlws yn 0 yna mae'n bosibl rhannu'r rhif â 2 ac eilrif yw hwn. • Os nad yw'r modwlws yn union 0, yna nid yw'r rhif yn union ranadwy â 2, felly odrif fydd hwn. 	1 1 1		2.1b 2.1b 2.1b		3																				
1b	<ul style="list-style-type: none"> • Enghraifft: <code>if num MOD 2 = 0 Then</code> • Detholiad yn allbynnu <code>num & " is an even number"</code> os yw'r amod <code>num MOD 2 = 0</code> yn cael ei fodloni. 	1 1		2.1b 2.1b		2																				
1c	<ul style="list-style-type: none"> • Enghraifft: <code>for i = 1 To numberstocheck</code> • Ailadrodd yn gwirio a yw'r rhifau yn eilrif/odrif hyd nes bydd yr holl rifau wedi'u gwirio. 	1 1		2.1b 2.1b		2																				
2	<table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th style="text-align: center;">\bar{A}</th> <th style="text-align: center;">$B.C$</th> <th style="text-align: center;">$\bar{A} + B.C$</th> <th style="text-align: center;">$\bar{A}.(A + B.C)$</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td style="text-align: center;">0</td> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">0</td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">0</td> <td style="text-align: center;">0</td> <td style="text-align: center;">0</td> <td style="text-align: center;">0</td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">1</td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">0</td> <td style="text-align: center;">1</td> <td style="text-align: center;">0</td> </tr> </tbody> </table> <p>Rhowch Un marc am bob colofn gywir.</p>	\bar{A}	$B.C$	$\bar{A} + B.C$	$\bar{A}.(A + B.C)$	0	1	1	0	0	0	0	0	1	1	1	1	1	0	1	0	4		2.1a		4
\bar{A}	$B.C$	$\bar{A} + B.C$	$\bar{A}.(A + B.C)$																							
0	1	1	0																							
0	0	0	0																							
1	1	1	1																							
1	0	1	0																							

Cw	Ateb	Marciau	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
3	<p>Rhowch 1 marc am enwi x 4 Rhowch 1 marc am ddisgrifio ffwythiant y gydran sy'n cael ei henwi x 4</p> <p>Uned reoli / cloc</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn rheoli'r gylchred Cywain/Datgodio/Gweithredu NEU yn Cywain pob cyfarwydd mewn dilyniant, yn ei ddatgodio a'i syncroneiddio drwy anfon signalau rheoli i rannau eraill y cyfrifiadur. <p>Uned Rifyddeg-Resymeg (Derbyn ALU)</p> <ul style="list-style-type: none"> Prosesu a thrin data sydd fel arfer yn cynnwys gweithrediadau rhifyddeg neu gymariaethau rhesymegol, yn caniatáu i raglen wneud penderfyniadau. <p>Cofrestri (MAR/MDR/CIR etc)</p> <ul style="list-style-type: none"> Storfa fach/cyrchu cyflym/dros dro y mae mecanweithiau ar wahân i'r prif gof yn ymdrin â nhw. (Neu ddisgrifiad o MAR MDR etc) <p>Bysiau (Bws Data / Bws Rheoli / Bws Cyfeiriad)</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn cysylltu holl gydrannau cyfrifiadur, fel y CPU a'r cof, â'r famwrdd. (Neu rôl benodol bws sy'n cael ei enwi). <p>Cof Storfa dros dro / Cof Mewnol (L1, L2)</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall CPU gyrchu cof Storfa dros dro yn gyflymach nag y mae'n gallu cyrchu RAM rheolaidd i weithredu eitemau o god sy'n cael eu cyrchu'n aml (e.e. dolenni). 	4 4	1.1a 1.1b			8

Cw	Ateb	Marciau	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
4	<p>Rhowch 1 marc am bob un hyd at 6 marc ar y mwyaf</p> <p>Unrhyw chwech o:</p> <ul style="list-style-type: none"> Golygydd: mae hyn yn gadael i'r rhaglennydd fwydo cod ffynhonnell/anodi i mewn a'i olygu Crynhoydd: Cyfieithu cod ffynhonnell yn god peiriant Dehonglydd: Cyfieithu pob llinell/un llinell o god ffynhonnell a'i weithredu Fformatio awtomatig: <ul style="list-style-type: none"> Codau lliw awtomatig: Newid geiriau allweddol, symbolau llythrennol ac anodi'n lliwiau gwahanol Cysylltydd: rhaglen yw hon sy'n gadael i god a grynhowyd yn flaenorol, o lyfrgelloedd meddalwedd, gael eu cysylltu â'i gilydd Llwythwr: rhaglen yw hon sy'n llwytho cod a grynhowyd yn flaenorol i'r cof. Dadfygiwr: rhaglen yw hon sy'n helpu lleoli, adnabod a chywiro gwallau mewn rhaglen Canfod gwallau cywair: Amlygu gwallau cywair cyn cyfieithu cod Olin: cyfleuster yw hwn sy'n arddangos trefn gweithredu llinellau rhaglen, ac o bosibl gwerthoedd y newidynnau wrth redeg y rhaglen cyfleuster yw hwn sy'n ymyrryd â rhaglen ar linell benodol o god, gan ganiatáu i'r rhaglennydd gymharu gwerthoedd newidynnau yn erbyn gwerthoedd disgwylidig. Mae'n bosibl wedyn gweithredu cod rhaglen un llinell ar y tro. Camu yw'r enw ar hyn Gwyllo'r newidyn: cyfleuster yw hwn sy'n arddangos gwerth cyfredol unrhyw newidyn. Gellir 'gwyllo'r gwerth wrth gamu'r cod rhaglen i weld effeithiau'r cod ar y newidyn. Fel arall gellir pennu ffordd o wyllo'r newidynnau, a fydd yn ymyrryd â llif y rhaglen os bydd y newidyn sy'n cael ei wyllo'n cyrraedd gwerth penodol Arolygwr cof: cyfleuster yw hwn sy'n arddangos cynnwys adran o gof Diagnosteg gwallau: mae'r rhain yn cael eu defnyddio pan mae rhaglen yn methu crynhoi neu'n methu rhedeg. Mae negeseuon gwall yn cael eu dangos i helpu'r rhaglennydd wneud diagnosis o'r hyn sydd wedi mynd o'i le Efelychydd: bydd hyn yn darparu efelychydd i redeg y cod/ap fel nad oes angen unrhyw ddyfais ffisegol Dewislen sensitif i gyd-destun: mae IDE yn awgrymu dewisiadau sydd ar gael Cwblhau mynegiad: bydd IDE yn cwblhau mynegiad fel ychwanegu 'end if' at fynegiad 'os' creu RhDG (GUI): Yn caniatáu i'r rhaglennydd greu RhDG (GUI) drwy reolaethau llusgo a gollwng (botymau, etc...) ar ffurflen. Cyhoeddwr: cyfleuster i becynnu a defnyddio rhaglen fel pecyn hawdd ei osod Optimeiddio cod: Neges rybuddio pan mae newidynnau wedi'u datgan ond heb eu defnyddio. <p>Derbyniwch IDE/SDE/SDK yn gydgyfnewidiol</p>	6	1.1b			6

Cw	Ateb	Marcia u	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
5a	<p>Rhowch 1 marc am bob un</p> <p>Simplecs</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n bosibl trawsyrru data mewn un cyfeiriad yn unig. <p>Hanner-dwplecs</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n bosibl trawsyrru data yn y ddau gyfeiriad, ond dim ond mewn un cyfeiriad ar unwaith. <p>Dwplecs llawn</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n bosibl trawsyrru data'r naill ffordd a'r llall ar yr un pryd. 	1 1 1	1.1b 1.1b 1.1b			3
5b	<p>Rhowch 1 marc am bob un</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae gwrthdrawiad data yn digwydd pan mae dwy set o ddata'n cael eu canfod ar y rhwydwaith ar yr un pryd. Unwaith maen nhw wedi'u canfod, mae'r cyfrifiadur yn aros am gyfnod byr (hap) ac yna'n anfon eto. 	1 1	1.1b 1.1b			2
6ai	Rhowch 1 marc Casgliad o 8 did yw beit, (e.e. 00101010_2)	1	1.1a			1
6aii	Rhowch 1 marc Gair yw cyfanswm nifer y didau mae CPU yn gallu eu trin fel uned unigol.	1	1.1b			1
6b	<p>Rhowch 1 marc am bob un</p> <p>Trawsnewid $2A_{16}$ yn rhif deuaidd: 00101010_2 Trawsnewid $2A_{16}$ yn rhif deuaidd: 10111011_2</p> <p>Adio deuaidd:</p> $\begin{array}{r} 00101010_2 \\ 10111011_2 \\ \hline 11100101_2 \\ \hline 01110100_2 \end{array}$	1 1 1 (ateb) 1 (trosglwyddo)		2.1a 2.1a 2.1a 2.1a		4
6c	<p>Rhowch 1 marc am bob un</p> <ul style="list-style-type: none"> O'r ochr dde, ei ailysgrifennu hyd at a gan gynnwys yr un cyntaf drwy newid digidau 1 eraill yn 0 a digidau 0 yn 1 <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> Fflipio'r didau ac ychwanegu un. <p>Enghraifft:</p> $00011011 \rightarrow \text{xxxxxxxx}1 \rightarrow 11100101$	1 1	1.1b		2.1a	2

Cw	Ateb	Marcia u	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
6ch	Rhowch 1 marc am bob un Mantisa = $13/16$ NEU 0.8125 , Esbonydd = 3 Ateb = $0.8125 \times 2^3 = 6.5_{10}$	1 1 1		2.1a 2.1a 2.1a		3
6d	Rhowch 1 marc am bob un Blaendoriad: mae'r rhif yn cael ei amcangyfrifo i gyfanrif/degfed/canfed etc. yn nes at sero. (caniatewch is, derbyniwch y syniad o wedi'i fyrhau / wedi'i dorri i ffwrdd / wedi'i dynnu) Talgrynnu: mae'r rhif yn cael ei amcangyfrifo i gyfanrif/degfed/canfed etc. Enghraifft <ul style="list-style-type: none"> • Blaendoriad: 26_{10} <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwall -0.8_{10} • Talgrynnu: 27_{10} <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwall -0.2_{10} 	1 1 1 1 1 1	1.1b 1.1b	2.1a 2.1b 2.1a 2.1b		6

Cw	Ateb	Marciau	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
7	<p>Rhowch 1 marc am bob un:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae lleoliad ffisegol y cofnod yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio algorithm stwnsio Mae'r cyfrifiad yn cael ei gyflawni ar ddata yn y maes allweddol (neu eitem orfodol arall o ddata) Mae gwrthdrawiad data yn digwydd pan mae dwy eitem o ddata'n cael eu stwnsio i'r un lleoliad Yn yr achos hwn mae angen cael ardaloedd gorlif lle mae'r data diweddaraf yn cael eu storio Pan mae llawer o eitemau yn yr ardal orlif, gall fod yn araf cyrchu'r rhain Os felly mae angen algorithm stwnsio newydd a gall fod angen ffeil fwy. 	1 1 1 1 1 1	1.1b 1.1b 1.1b 1.1b 1.1b 1.1b			6
8	<p>Cynnwys dangosol</p> <pre> 1 Declare MyArray[0 to 6] 2 Declare Start is integer 3 Declare End is integer 4 Declare Found is Boolean 5 Declare Mid is integer 6 7 set Start = 0 8 set End = 6 9 set Found = False 10 11 input SearchValue 12 13 repeat 14 set Mid = (Start + End) DIV 2 15 if SearchValue = MyArray[Mid] 16 then 17 set Found = True 18 Output "SearchValue found at 19 position", Mid 20 endif 21 if SearchValue > MyArray[Mid] 22 then 23 set Start = Mid + 1 24 endif 25 if SearchValue < MyArray[Mid] 26 then 27 set End = Mid - 1 28 endif 29 until (Found = True) OR (End < Start) 30 31 if Found = False 32 Output "SearchValue not 33 found" 34 endif </pre>					8

Cw	Ateb	Marciau	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
	<p>Marcio Rhowch 1 marc am bob un hyd at 8 marc ar y mwyaf</p> <ul style="list-style-type: none"> Datgan arae ac ymgychwyn newidynnau Mewnbynnu SearchValue Strwythur dolen + cynyddu Cymharu â searchValue ac allbynnu'r safle os deuir o hyd iddo Amod terfynu cywir ar gyfer dolen Gwaredu hanner yr arae yn gywir os myArray(Mid) > SearchValue Gwaredu hanner yr arae yn gywir os myArray(Mid) > SearchValue Allbynnu neges os na ddeuir o hyd iddo 	1 1 1 1 1 1 1 1			3.1b 3.1b 3.1b 3.1b 3.1b 3.1b 3.1b 3.1b	
9	<ul style="list-style-type: none"> Mae modiwl safonol yn fodiwl sy'n gwneud tasg gyffredin / safonol / sy'n gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer sefyllfa safonol mewn rhaglen (llawer o raglenni) <p>Enghraifft: ffwythiant argraffu / mewnbynnu dulliau dilysu / ffwythiannau mathemateg (e.e. ail isradd)</p> <p>Rhowch 1 marc am bob mantais (unrhyw ddau o):</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes angen ysgrifennu eto gan ei fod wedi'i ysgrifennu'n barod/lleihau amser datblygu Llai tebygol o fod â gwallau gan ei fod wedi'i brofi/defnyddio'n barod ("go iawn") Mae'n debygol o fod o safon uchel/effeithlon gan y gall fod wedi'i ysgrifennu gan arbenigwyr yn y maes 	1 1 2	1.1b 1.1b 1.1b			4
10	$A.(A + C) + C.(A + B)$ $A.A + A.C + C.A + C.B$ $A + A.C + C.A + C.B$ $A + A.C + A.C + C.B$ $A + A.C + C.B$ $A + C.B$ <p>1 marc am yr ehangu dechreuol 3 marc ar y mwyaf am bob symleiddiad (gellir rhoi llawer o farciau am bob llinell) 1 marc am ateb cywir</p> <p>neu</p> $A.(A + C) + C.(A + B)$ $A.A + A.C + C.A + C.B$ $A + A.(C + C) + C.B$ $A + A.(C) + C.B$ $A.(1 + C) + C.B$ $A + C.B$	1 1 1 1 1		2.1a 2.1a 2.1a 2.1a 2.1a		5

Cw	Ateb	Marciau	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
	Dulliau eraill yr un mor dderbyniol					
11	<pre> classDiagram class Adran class Cyrsiau class Myfyrwyr class Modiwlau Adran < -- Cyrsiau Adran < -- Myfyrwyr Cyrsiau < -- Modiwlau </pre> <p>Marcio: Rhowch 1 marc am bob un hyd at 4 marc ar y mwyaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y pedwar endid yn gywir • Perthynas gywir rhwng Adran a Chyrsiau • Perthynas gywir rhwng Cyrsiau a Myfyrwyr • Perthynas gywir rhwng Cyrsiau a Modiwlau 	1 1 1 1		2.1b 2.1b 2.1b 2.1b		4

Cw	Ateb	Marci au	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
12a	<p>Rhowch hyd at 6 marc am unrhyw un dull trosi.</p> <p>D.S. 1 marc am enw 1 marc am ddisgrifiad</p> <p>Gellir mabwysiadu dull "clec fawr" - newid sydyn i system newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai'r dull hwn gael ei ddefnyddio mewn achosion lle na fyddai methiant yn drychinebus Gall fod yn rhatach i'w weithredu Mae'r system newydd ar gael ar unwaith os bydd angen Gall y dull hwn fod y lleiaf trafferthus os bydd yn cael ei weithredu'n dda Efallai na fydd y system newydd yn gweithio cystaltan y bydd staff wedi arfer yn llwyr â'i defnyddio Os bydd system newydd yn methu ni fydd system gan y sefydliad a gallai hynny fod yn ddrud neu'n beryglus <p>Rhedeg yn gyfochrog - y ddwy system yn cydreddeg am gyfnod</p> <ul style="list-style-type: none"> Y dewis mwyaf diogel os bydd y system newydd yn methu mae'r system bresennol ar gael o hyd Mae'r system newydd ar gael ar unwaith os bydd angen Gellir cymharu'r allbynnau o'r hen system a'r system newydd i wirio bod y system newydd yn gweithio'n gywir Drud gan y gall fod angen staff dros dro neu oramser ar gyfer staff cyfredol i weithredu'r ddwy system Gallai achosi dryswch i'r staff / cwsmeriaid o gael dwy system <p>Trosi mewn camau - fesul rhan (yn ôl swyddogaeth)</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae defnyddwyr yn gallu dod i arfer â'r system newydd yn raddol Mae'n bosibl hyfforddi staff fesul cam Gall y staff i gyd ganolbwyntio ar un maes i ddatrys unrhyw broblemau Gellir cywiro problemau'n gyflymach gan fod mwy o arbenigwyr i ddatrys un problem swyddogaeth ar y tro Gall anawsterau mewn un maes gael eu datrys a'u rheoli yn y maes nesaf Gallai achosi problemau'n ystod y cyfnod trosi pan mae angen iddyn nhw gyfathrebu â'i gilydd a chael systemau gwahanol Mae'n arafach cael y system i weithio o gymharu â rhai dulliau eraill 	10	1.1b			10

Cw	Ateb	Marci au	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
	<ul style="list-style-type: none"> • Os bydd rhan o'r system newydd yn methu, nid oes system wrth gefn, felly mae'n bosibl y bydd data'n cael eu colli • Nid yw'n rhwydd torri systemau i lawr yn ôl swyddogaeth 					

Cw	Ateb	Marcia u	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
12a Parhad	<p>Trosi peilot - fesul rhan (yn ôl rhan o'r sefydliad)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall holl nodweddion y system newydd gael eu treialu'n llawn • Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le â'r system newydd, dim ond ar ran fach o'r sefydliad y bydd hyn yn effeithio • Gall y staff oedd yn rhan o'r cynllun peilot helpu i hyfforddi staff eraill. • Gall y staff i gyd ganolbwyntio ar un maes i ddatrys unrhyw broblemau • Gall anawsterau mewn un maes gael eu datrys a'u rheoli yn y maes nesaf • Nid oes system wrth gefn ar gyfer y swyddfa / adran sy'n cynnal y peilot os bydd rhywbeth yn mynd o'i le • Gallai achosi problemau'n ystod y cyfnod trosi pan mae angen iddyn nhw gyfathrebu â'i gilydd a chael systemau gwahanol • Mae'n arafach cael y system i weithio o gymharu â rhai dulliau eraill 					
12b	<p>Dim ond 1 marc am bob ymateb hyd at 6 marc</p> <p>O:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ffurf o ddiagramau sy'n cael eu defnyddio wrth ddadansoddi a dylunio. • Disgrifiadau o'r gweithdrefnau a'r isreolweithiau sy'n cael eu defnyddio. • Y strwythur data: <ul style="list-style-type: none"> ○ Pa strwythurau data gafodd eu defnyddio, dyluniadau tablau cronfa ddata ac unrhyw wybodaeth arall am anghenion data y mae angen eu storio. • Dyluniadau algorithmau: <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd algorithmau fel arfer yn cael eu cyflwyno ar ffurf ffug-god neu siart llif. • Rhestr codau anodedig: <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhestr codau sy'n cadw at y safonau codio mae'r cwmni datblygu wedi'u gosod. Hunan-ddogfennu a/neu anodedig fel arfer. • Rhestr newidynnau: <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhestr o newidynnau allweddol yn rhestru eu mathau data a phwrpas. Ni fyddai newidynnau sy'n fwy dros dro, fel rhifyddion dolenni, yn cael eu cynnwys. • Geiriadur data: <ul style="list-style-type: none"> ○ Disgrifiad o'r holl feysydd y mae angen eu storio yn y strwythur data yn cynnwys math data, maint, perthynas â thablau eraill a disgrifiad. • Dogfennau dylunio: <ul style="list-style-type: none"> ○ Unrhyw ddogfennaeth berthnasol o'r cyfnod dylunio. • Gofynion caledwedd a meddalwedd. <ul style="list-style-type: none"> ○ Perfformiad ○ Storio ○ Rhwydweithio ○ Cytunedd 	6	1.1b			6

Cw	Ateb	Marcia u	AA1	AA2	AA3	Cyfa nsw m
	<ul style="list-style-type: none"> ○ System weithredu • Canllaw ac opsiynau ffurfweddu: <ul style="list-style-type: none"> ○ Sut mae'n bosibl ffurfweddu'r system, a allai fod drwy system ddewislen neu drwy olygu ffeiliau ffurfweddu. 					

Cw	Ateb	Marcia u	AA1	AA2	AA3	Cyfan swm
13	<p>Marcio'n ôl meini prawf hyd at 10 marc</p> <p>Cynnwys dangosol</p> <p>Mathau o reolweithiau gwneud copïau wrth gefn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • System copïo cenedlaethau o ffeiliau <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae hyn yn cynnwys storio tri o fersiynau mwyaf diweddar y brif ffeil. (nain – mam – merch) ○ Mae'n ddefnyddiol os caiff un fersiwn ei lygru: mae'r fersiwn (fersiynau) blaenorol ar gael o hyd. ○ Dylid storio data oddi ar y safle rhag ofn bod trychineb. • Creu copïau cynyddol wrth gefn <ul style="list-style-type: none"> ○ Dim ond yn creu copïau wrth gefn o ddata sydd wedi newid ac yn ysgrifennu dros gopïau wrth gefn hŷn ○ Mae'n ddefnyddiol gan ei fod yn arbed lle storio ac yn gyflymach na chreu copïau llawn wrth gefn ○ Dim ond y copi wrth gefn diweddaraf mae'r defnyddiwr yn gallu ei adfer. • Copïau wrth gefn newid Delta (yn cael ei dderbyn ond nid yw'n ddisgwyliedig) <ul style="list-style-type: none"> ○ Dim ond data sydd wedi'i newid ers y copi wrth gefn diwethaf sy'n cael ei gopïo ○ Mae'r copi wrth gefn gwreiddiol yn cael ei gadw o hyd rhag ofn bod angen adfer data ○ Mae'n ddefnyddiol gan ei fod yn gyflymach na chreu copïau llawn wrth gefn <p>Rheolweithiau adfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prynu caledwedd newydd • Adfer ar ôl trychineb – adfer cronfeydd data/ffeiliau <p>Gweithdrefnau creu copïau wrth gefn cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profi os yw'r broses gopïo wrth gefn wedi gweithio/yn gallu cael eu hadfer • Amlder creu copïau wrth gefn • Amseru, e.e. dros nos • Yr aelod o staff â chyfrifoldeb sy'n sicrhau proses addas o greu copïau wrth gefn <p>Gyriant disg caled allanol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflymder cyrchu – Trosglwyddo data'n gyflym iawn sy'n bwysig wrth ddiweddarau bob dydd • Cost yr uned o storfa – disg caled allanol yn eithaf rhad am bob beit o storfa • Rheswm cludadwy – disg galed allanol yn eithaf bach yn gorfforol a gellir ei storio'n hawdd ac yn ddiogel mewn, er enghraifft, sêff wrthdan • Addasrwydd: Nid yw'n addas heb gyfiawnhad 	10	1.1b			10

Cw	Ateb	Marcia u	AA1	AA2	AA3	Cyfan swm
	<p>Storfa cwmwl / llwytho i fyny i ddarparwr storfa trydydd parti</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflymder cyrchu – trosglwyddo cyflym iawn yn bosibl (gan ddibynnu ar gyflymder y rhwydwaith) wrth ddiweddarau bob dydd • Cost yr uned o storfa – gallai fod yn rhatach neu'n ddrutach na disg allanol – derbyn y naill neu'r llall gyda chyfiawnhad • Data wedi'u storio'n ddiogel ar weinyddion sydd wedi'u diogelu (neu dylen nhw fod!) • Addasrwydd: Mae'n addas ar gyfer cwmni mawr os bydd cyfiawnhad (h.y. contract yn ei le ar gyfer lleoli'r storfa etc) <p>Gyriant cof fflach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflymder cyrchu – Trosglwyddo data'n gyflym iawn sy'n bwysig wrth ddiweddarau bob dydd • Cost yr uned o storfa – cof pin yn eithaf rhad • Rheswm cludadwy – mae'r cof pin yn fach yn gorfforol a gellir ei storio'n hawdd ac yn ddiogel mewn, er enghraifft, sêff wrthdan • Addasrwydd: Ddim yn addas ar gyfer cwmni mawr <p>Tâp magnetig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheswm cyflymder cyrchu – Cyrchiad cyfresol felly gall fod yn araf, fe'i defnyddir i wneud copïau wrth gefn o ffeiliau a newidiwyd y diwrnod hwnnw'n unig • Rheswm cost yr uned o storfa – tâp yn weddol rad (er y gall y gyriant fod yn ddrud!) o'i gymharu â chyfryngau storio eilaidd eraill • Rheswm cludadwy – mae'r tâp yn fach yn gorfforol a gellir ei storio'n hawdd ac yn ddiogel mewn, er enghraifft, sêff wrthdan. • Addasrwydd: Yn hanesyddol mae cwmnïau mawr wedi'i ddefnyddio'n helaeth 					

Band	AA1.1b 10 marc ar y mwyaf											
3	<p style="text-align: center;">Rhowch 8 - 10 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu ymateb estynedig â thrywydd ymresymu cyson sy'n eglur, perthnasol, ac wedi'i strwythuro'n rhesymegol • dangos dealltwriaeth glir o ofynion y cwestiwn a gwybodaeth glir o'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys. Diffinnir gwybodaeth glir fel ymateb sy'n rhoi wyth i ddeg (hyd at bedwar am greu copïau wrth gefn) o bwyntiau manwl perthnasol am reolweithiau creu ffeiliau wrth gefn a chyfryngau storio eilaidd addas, sy'n ymwneud â nifer helaeth o'r awgrymiadau ar gyfer y cynnwys • ymdrin â'r cwestiwn yn briodol heb fawr ddim ailadrodd nac unrhyw ddeunydd amherthnasol • cyflwyno trafodaeth gytbwys ac wedi rhoi enghreifftiau i gyfiawnhau'r ateb • defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio'n hyderus a chywir at y cynnwys dangosol. 											
2	<p style="text-align: center;">Rhowch 4 - 7 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu ymateb â thrywydd ymresymu digonol sy'n cynnwys elfennau o eglurder, perthnasedd, a strwythur rhesymegol • dangos dealltwriaeth ddigonol o ofynion y cwestiwn a gwybodaeth foddhaol o'r rheolweithiau creu ffeiliau wrth gefn a chyfryngau storio eilaidd addas fel y manylir arno yn yr awgrymiadau ar gyfer cynnwys. Diffinnir gwybodaeth foddhaol fel ymateb sy'n rhoi rhwng pedwar i saith (hyd at bedwar am greu copïau wrth gefn) o bwyntiau manwl fel y nodir yn y cynnwys dangosol • cyflwyno trafodaeth gan roi enghreifftiau cyfyngedig • defnyddio termau technegol priodol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol. 											
1	<p style="text-align: center;">Rhowch 1 - 3 marc</p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu ymateb nad oes iddo ddigon o ymresymu a strwythur • cynhyrchu trafodaeth sydd heb ei datblygu'n dda • ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn ond wedi dangos gwybodaeth arwynebol o'r topigau fel y manylir arnynt yn y cynnwys dangosol. Diffinnir gwybodaeth arwynebol fel ymateb sy'n rhoi un i dri o bwyntiau manwl perthnasol am reolweithiau creu copïau wrth gefn a chyfryngau storio eilaidd addas fel y nodir yn y cynnwys dangosol • defnyddio ychydig o dermau technegol gan gyfeirio at y cynnwys dangosol. 											
0	<p style="text-align: center;">Rhowch 0 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. 											
<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 15%;">Cyfanswm</td> <td style="width: 12.5%;">100</td> <td style="width: 12.5%;">60</td> <td style="width: 12.5%;">32</td> <td style="width: 12.5%;">8</td> <td style="width: 12.5%;">100</td> </tr> </table>							Cyfanswm	100	60	32	8	100
Cyfanswm	100	60	32	8	100							